
NFCC
National Fire Chiefs Council

# COSTAU BYW

## Camau i gadw'n ddiogel rhag tân

Cymru



Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
South Wales Fire and Rescue Service

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales Fire and Rescue Service

Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
North Wales Fire and Rescue Service

# Costau Byw

## Cyngor Diogelwch Tân yn y Cartref

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys awgrymiadau ymarferol y gallwch eu dilyn, i ddiogelu eich hunain a phobl eraill rhag tanau damweiniol a gwenwyno gan garbon monocsid wrth i chi geisio cadw'n gynnes a lleihau'r defnydd o ynni, yn ystod y cyfnod hwn gyda chostau byw cynyddol. Dilynwch yr awgrymiadau hyn!

# Diogelwch eich cartref gyda larymau mwg a charbon monocsid (CO)

**Rydych chi tua naw gwaith yn fwy tebygol o farw mewn tân yn y cartref os nad oes unrhyw larymau mwg sy'n gweithio gyda chi.**

Gosodwch o leiaf un larwm mwg ar bob lefel o'ch cartref



- profwch nhw yn wythnosol

Os nad oes gennych unrhyw larymau mwg sy'n gweithio, cysylltwch â'ch Gwasanaeth Tân ac Achub lleol a all eu darparu ar eich cyfer.

## Larymau Mwg

- Profwch eich larymau mwg yn wythnosol
- Gellir gosod larymau canfod gwres mewn ceginau.

Cynlluniwch lwybr dianc a gwnewch yn siŵr bod pawb yn gwybod beth i'w wneud os bydd eich larwm mwg yn canu



# Larymau CO

**Gall larymau CO amddiffyn rhag y nwy gwenwynig, di-liw a diarogl hwn, a gynhyrchir gan offer sy'n llosgi nwy, pren, olew neu lo. Gall CO eich gwneud yn ddifrifol wael a gall fod yn angheuol.**

Archebwch wiriad diogelwch nwy gyda pheiriannydd sy'n gofrestredig â Gas Safe, nawr i atal gwenwyno CO, gollyngiadau nwy a ffrwydradau yn eich cartref. Dylech chi, berchnogion tai, holi eich darparwr ynni i weld a ydych chi'n gymwys i gael gwiriad blynyddol am ddim trwy eu Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth.

Os ydych chi'n denant, rhaid i'ch landlord drefnu gwiriad diogelwch nwy blynyddol gan beiriannydd sy'n gofrestredig â Gas Safe ar gyfer cyflenwad nwy, pibellau ac unrhyw offer sy'n cael eu darparu fel rhan o'ch tenantiaeth.




Gosodwch larymau carbon monocsid mewn ystafelloedd gyda gwres llosgi tanwydd neu declyn nwy

**Os ydych chi'n rhentu eich cartref, rhaid i'ch landlord sicrhau bod larymau mwg yn eich cartref. Rhaid iddynt hefyd sicrhau bod larwm carbon monocsid yn yr holl ystafelloedd a ddefnyddir fel llety byw sy'n cynnwys teclyn hylosgi sefydlog (ac eithrio poptai nwy).**

# Sigaréts

Ysmygu yw prif achos marwolaethau damweiniol o ganlyniad i dân o fewn y DU. Cewch leihau'r risg drwy geisio rhoi'r gorau iddi, gan ddefnyddio cymorth GIG os oes ei angen arnoch.

Gall sigaréts ffug ac anghyfreithlon gynyddu risg tân. Os nad ydych yn barod i roi'r gorau iddi, prynwch sigaréts cyfreithlon yn unig.




# Gwresogi eich cartref

**Er mwyn arbed arian, ystyriwch gynhesu'r person, yn hytrach na'r cartref cyfan.**

## Defnyddio gwresogyddion cludadwy

- Darllenwch y cyfarwyddiadau bob amser gan ddeall sut i ddefnyddio offer yn ddiogel, gwirio eu bod yn gweithio'n iawn a heb fod yn destun hysbysiad diogelwch neu alw cynnyrch yn ôl.




Peidiwch ag eistedd yn rhy agos at wresogydd. Eisteddwch o leiaf un metr oddi wrth wresogydd bob amser gan y gallai rhoi eich dillad neu gadair ar dân.

www.gov.uk/guidance/product-recalls-and-alerts

- Peidiwch â gosod gwresogyddion cludadwy lle byddant yn rhwystro eich llwybr dianc neu lle gallent gael eu bwrw drosodd.
- Cadwch wresogyddion i ffwrdd o ddeunyddiau fflamadwy megis papur, llenni, dodrefn a dillad gwely.
- Tynnwch blygiau gwresogyddion pan fyddwch chi'n mynd allan neu'n mynd i'r gwely.
- Defnyddiwch wresogyddion nwy neu baraffin mewn ardaloedd sy wedi'u hawyru'n dda, ar ôl gwirio eu bod yn addas i'w defnyddio dan do. Sicrhewch fod larwm CO wedi cael ei osod yn yr un ystafell.




Plygiwch wresogyddion trydanol i socedi yn y wal - yn hytrach na chebl estyn.




**Caewch y drysau mewnol gyda'r nos. Bydd yn help i gadw eich ystafelloedd yn gynnes a lleihau lledaeniad tân a mwg os bydd tân yn cychwyn.**

# Defnyddio tanau agored a stofiau llosgi coed




- Defnyddiwch gard tân gyda thân agored bob amser.
- Gwnewch yn siŵr bod tanau wedi'u diffodd yn iawn cyn i chi noswylio.
- Gwiriwch ffliwiau a simneiau a'u hysgubo i atal tanau simnai a gwenwyn CO.
- Defnyddiwch y tanwydd priodol ar gyfer eich tân. Gall llosgi gwastraff cartref neu ddeunyddiau megis pren sy wedi cael ei drin achosi mygdarthau gwenwynig yn y cartref ac hefyd mae'n risg tân. Storiwch danwydd ar gyfer tanau agored a stofiau llosgi coed yn ddigon pell oddi wrth dân.
- Gosodwch larwm CO ym mhob ystafell gyda chyfarpar llosgi tanwydd neu sicrhewch bydd eich landlord wedi darparu larymau CO yn unol â'r rheoliadau.



Peidiwch byth â sychu dillad ar neu'n agos at wresogydd neu dân agored



# Offer Trydanol

**Peidiwch â defnyddio nwyddau gwyn a dyfeisiau gwefru pan fyddwch chi'n cysgu – bydd llai o amser gyda chi i ymateb os bydd tân yn cychwyn. Gwiriwch eich tariff - nid yw'r rhan fwyaf o gartrefi yn cael trydan rhatach yn y nos.**

Cofrestrwch eich cynhyrchion trydanol newydd a hŷn – byddwch chi'n cael gwybod os bydd problem

**www.registermyappliance.org.uk**

- Peidiwch â gorlwytho socedi plygiau. Dylid plygio offer megis peiriannau golchi a gwresogyddion trydan yn uniongyrchol i soced yn y wal gan eu bod yn bwerus iawn.
- Os ydych chi'n meddwl y gallai fod problem gyda pheiriant, peidiwch â mentro. Tynnwch y plwg a chysylltwch â'r manwerthwr, neu'r gwneuthurwr.
- Prynwch nwyddau trydanol gan fanwerthwyr a gweithgynhyrchwyr gydag enw da - mae cynhyrchion ffug, llwgr ac is-safonol yn risg tân.
- Wrth wefru nwyddau trydanol, dilynwch gyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a chwiliwch am y marc CE sy'n dangos bod gwefrwyr yn cydymffurfio â safonau diogelwch Ewropeaidd.

Gwiriwch bob amser am farciau diogelwch ar offer trydanol

# Blancedi Trydanol



Peidiwch â rhoi hylif yn agos at flancedi

- Dylid storio blancedi'n fflat, wedi'u rholio neu wedi'u plygu'n llac i atal niweidio'r gwifrau mewnol.
- Tynnwch blygiau blancedi cyn i chi fynd i'r gwely oni bai fod rheolydd thermostat arno er mwyn i chi ei defnyddio'n ddiogel drwy'r nos.
- Peidiwch â phrynu blancedi ail law – mae'n bosib na fyddant yn bodloni safonau diogelwch cyfredol.
- Gwiriwch y flanced yn gyson am olion traul a pheidiwch â'i defnyddio os bydd gwifrau yn y golwg neu wedi gwthio drwy'r ffabrig.
- Peidiwch â defnyddio blanced ag olion llosgi neu ddrygliwiad neu flanced sy'n gwneud sain suo wrth ei droi ymlaen.
- Dilynwch gyfarwyddiadau'r gwneuthurwr bob amser a'i ddefnyddio yn ôl y bwriad.
- Nid yw hylifau a blancedi trydan yn cymysgu. Peidiwch â defnyddio potel dŵr poeth na dod â diodydd yn agos wrth ddefnyddio eich blanced.




Peidiwch â defnyddio canhwyllau pan fyddwch chi wedi blino neu ar ôl yfed

# Canhwyllau

**Nid yw canhwyllau yn ffordd effeithlon i wresogi ystafell a dylech chi fod yn ofalus iawn wrth eu defnyddio ar gyfer goleuo. Mae tua 30 y cant o danau a gychwynnwyd gan ganhwyllau a fynychwyd gan y Gwasanaethau Tân ac Achub yn arwain at farwolaeth neu anaf.**

- Sicrhewch bob amser bod canhwyllau wedi eu gosod mewn daliwr addas ac yn bell o gyrraedd unrhyw beth fflamadwy.
- Peidiwch â llosgi nifer o ganhwyllau yn agos at ei gilydd, gallai hyn achosi i'r fflam fflachio.
- Diffoddwch ganhwyllau pan fyddwch chi'n gadael yr ystafell, a gwnewch yn siŵr eu bod nhw wedi cael eu diffodd yn llwyr yn y nos.
- Ni ddylid gadael plant ac anifeiliaid anwes ar eu pen eu hunain gyda chanhwyllau ynghyn.
- Mae defnyddio canhwyllau LED, tortshis neu oleuadau batri yn ddewis callach a mwy diogel

# Cwblhewch gais am Archwiliad Diogel ac Iach AM DDIM



Os oes larymau mwg sy'n gweithio yn eich eiddo, neu os hoffech chi gael cyngor diogelwch tân, mae croeso i chi gysylltu â:

**Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru**
Rhadffôn 0800 169 1234 (testun 07507303678)
**www.tangogleddcymru.llyw.cymru**

Gallwch hefyd lenwi un ar gyfer cymydog, ffrind neu berthynas a allai fod angen cymorth.

## Cofiwch,
## mewn achos o dân...
## EWCH ALLAN,
## ARHOSWCH ALLAN
## FFONIWCH 999

NFCC National Fire Chiefs Council

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service